

<b>CYFARFOD</b>	<b>PWYLLGOR YMGYNGHOROL HARBWR PWLLHELI</b>
<b>Dyddiad:</b>	15 Hydref 2019
<b>Eitem:</b>	Adolygiad Hafan a Harbwr Pwllheli
<b>Awdur:</b>	Llyr Jones, Uwch Reolwr Economi a Chymuned

### **Cefndir a Chyd-destun**

1. Bu i chi dderbyn cyflwyniad gennyf 'nol yMawrth 2019 yn nodi bod achos dros newid yn bodoli ar gyfer yr Hafan ym Mhwillheli ac felly gytuno i'r Cyngor symud ymlaen i Gam 2, sef cwblhau gwaith manwl ar yr opsiynau canlynol:
  - Cyflwyno gwelliannau i drefniadau presennol
  - Rheolaeth i aros o fewn y Cyngor gyda rhaglen fuddsoddi
  - Creu cwmni hyd fraich
  - Menter ar y cyd gyda darparwyr preifat
  - Prydlesu'r safle.
2. Er mwyn bwrw 'mlaen gyda Cham 2, sefydlwyd tîm prosiect amlddisgyblaethol a phenodwyd arbenigwyr allanol ar gyfer datblygu'r achos fusnes.
3. Yn ystod y gwaith cychwynnol gyda'r ymgynghorwyr allanol, penderfynwyd dylid ymgorffori holl asedau'r Cyngor o ran safle'r Harbwr a'r Hafan fel bod popeth yn derbyn ystyriaeth yn y gwaith o ddatblygu'r opsiynau uchod ymhellach.
4. Mae'r Bwrdd Prosiect a sefydlwyd yn cynnwys Aelod Cabinet Datblygu'r Economi a Chymuned, aelodau lleol a swyddogion.
5. Ers penodi'r ymgynghorwyr yn gynharach eleni, mae'r Bwrdd Prosiect wedi gweithio'n agos gyda'r ymgynghorwyr i edrych ar ystod o ystyriaethau sy'n berthnasol i'r Hafan a Harbwr Pwllheli; mae rhain yn cynnwys agweddau cyfreithiol, eiddo, cyllid a thueddiadau o fewn y farchnad forwrol.
6. Disgwylir adroddiad terfynol gan yr ymgynghorwyr erbyn canol fis Hydref.